OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2021 Rhif 128 (Cy. 34)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 24 (Coldra) i Gyffordd 28 (Parc Tredegar), Casnewydd) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro) 2021

Gwnaed	*5 Chwefror 2021*
Yn dod i rym	*11 Chwefror 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi neu oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 24 (Coldra) i Gyffordd 28 (Parc Tredegar), Casnewydd) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro) 2021 a daw i rym ar 11 Chwefror 2021.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (c.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**); a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 11 Chwefror 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

Cymhwyso

6.—(1) Ni fydd y cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal Dros Dro

7. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 5 Chwefror 2021

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o brif gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o bwynt 675 o fetrau i'r gorllewin o drosbont Trefesgob i Lanfarthin (man i'r dwyrain o Gyffordd 24 (Coldra)) hyd at bwynt 80 o fetrau i'r gorllewin o danbont Forge Road (wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar)).

Y darn o brif gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o bwynt 64 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar) hyd at bwynt 229 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 24 (Coldra).

Y darn o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 24 (Coldra) sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r dwyrain yr M4 hyd at bwynt 123 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol yr A48/A449 Cyfnewidfa Coldra.

Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 24 (Coldra) sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r gorllewin yr M4 hyd at bwynt 114 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol yr A48/A449 Cyfnewidfa Coldra.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 24 (Coldra) sy'n ymestyn o bwynt 6 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol yr A48/A449 Cyfnewidfa Coldra hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r gorllewin yr M4.

Y darnau o'r ffyrdd ymadael tua'r gorllewin a'r ffyrdd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 25 (Caerllion).

Y darnau o ffyrdd cyswllt ymadael tua'r gorllewin ac ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 25A (Grove Park).

Y darnau o'r ffyrdd ymuno a'r ffyrdd ymadael tua'r dwyrain a thua'r gorllewin wrth Gyffordd 26 (Malpas) a Chyffordd 27 (High Cross).

Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar) sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r gorllewin yr M4 hyd at bwynt 270 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cyfnewidfa Parc Tredegar.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 28 (Parc Tredegar) sy'n ymestyn o bwynt 45 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â chylchfan yr A48/A467 hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r dwyrain yr M4.